

COFNODION CYFARFOD o GYNGOR CYMUNED Y BORTH A GYNHALIWIYD YN Y NEUADD
GYMUNEDOL NOS LUN, y 3ydd o HYDREF 2022 AM 19.17 O'R GLOCH

<u>PRESENNOL</u>	<u>CADEIRYDD</u>	H HUGHES
		R DALTON
		A HUGHES
		G B JONES
		A J MORRIS
		N SALMON
		A THOMAS
		H WILLIAMS
		C BAINBRIDGE
		M GRIFFITHS
		D PRYCE JONES
YN BRESENNOL	<u>CLERC</u>	I RAILTON
		3 AELOD O'R CYHOEDD

YMDDIHEURIADAU

112. Roedd y Cynghorwyr Pryce Jones a Salmon i fod i ymuno dros Zoom, ond ni allai'r naill na'r llall ymuno oherwydd problemau technegol. Dywedodd y Cynghorydd Thomas y byddai'n rhaid iddo adael am 20.25 o'r gloch.

CYFRANOGIAD Y CYHOEDD

113. Estynnodd y cyhoedd groeso i Dylan ac estynnodd y Cynghorydd H Hughes groeso cynnes i bawb a diolchodd i bawb am fod yn bresennol.

Gofynnodd James Davies a fyddai modd gosod y byrddau storm o amgylch y pentref am fod y tywydd ar fin troi'n arw.

Gofynnodd James Davies hefyd a fyddai modd gofyn eto i Gyngor Sir Ceredigion sugno'r silt o'r draeniau. Cydnabu'r Cynghorydd H Hughes fod hon yn broblem. Bydd y Clerc yn cofnodi'r mater drwy system CLIC.

DATGAN BUDDIANNAU

114. Atgoffwyd y Cynghorwyr i ddatgan buddiant dan unrhyw faterion perthnasol a allai godi yn ystod y cyfarfod.

COFNODION Y CYFARFOD MISOL

115. Dyma'r materion a godwyd yn sgil cofnodion cyfarfod mis Medi:

(Cofnod 90) Hoffai'r Cynghorydd Williams ychwanegu bod y datganiad o ddi-ddordeb a drafodwyd yn ymwneud â gwirfoddoli â'r Sgowntiaid a dyfrhau'r gwelyau blodau.

(Cofnod 99) Cywirodd y Cynghorydd Morris y Clerc gan nodi nad oedd y tir gyferbyn â Siop Premier yn cael ei drafod gyda golwg ar ei 'brynu' ond, yn hytrach, 'i'w gofrestru yn enw Cyngor Cymuned y Borth'.

Gofynnodd y Cynghorydd Williams gwestiwn hefyd am y siec a oedd yn daladwy i Mr Romary am £100 ers y cyfarfod diwethaf. Gofynnwyd a oedd 'terfyn amser' ar gyfer sieciau y gellid eu hysgrifennu a'u cymeradwyo y tu allan i'r cyfarfodydd.

Soniwyd am gofnodion cyfarfod mis Medi (Cofnod 90), pan ofynnwyd i'r Clerc holi Mr Romary pa swm fyddai'n ddigon i brynu bylbiau a phaent ar gyfer y gwelyau blodau hyn. Roedd y cyn-Glerc wedi awgrymu nad oedd mwy na £25 yn cael ei ddyrannu fel arfer i bob gwely blodau. Daeth Mr Romary yn ôl at y Clerc yn brydlon yn dilyn cyfarfod mis Medi a chyflwynwyd cynnig iddo a oedd yn rhestru'r eitemau i gyd.

Am fod yn rhaid delio â'r mater hwn o fewn cyfnod penodol (awgrymodd Mr Romary fod angen prynu a phlannu'r bylbiau cyn gynted â phosib ac nad oedd ganddo amser bellach i baentio'r gwelyau) ac ymhell islaw'r dyfyniad disgwylidig, ystyriwyd ei bod yn rhesymol ysgrifennu'r siec a'i chyflwyno cyn cyfarfod mis Hydref.

Deilliodd y drafodaeth hon o'r cofnodion blaenorol wrth adolygu'r materion.

(Cofnod 83) Roedd y Cynghorydd A Hughes am i Lywodraeth Cymru wybod bod y Cyngor yn hynod siomedig nad oedd y gweithdy ar ddemocratiaeth ac ymgysylltu yn digwydd yn y Canolbarth ond, yn hytrach, yn y gogledd a'r de yn unig.

Daeth e-bost i law oddi wrth y Cynghorydd A Hughes i'w anfon ymlaen i adlewyrchu'r drafodaeth uchod. Bydd y Clerc yn anfon yr e-bost ymlaen.

(Cofnod 85) Cyfarfu'r Cynghorydd H Hughes â'r Clwb Golff i drafod y diffibriliwr y maen nhw bellach yn ei gadw. Trafododd y Cyngor leoliad diffibrilwyr eraill a sut maen nhw wedi'u cysylltu â rhwydwaith 'The Circuit'.

(Cofnod 101) Dywedodd y Cynghorydd M Griffiths ei fod wedi siarad â Ray Quant ac nad oedd yn ef yn dymuno cael ei gydnabod fel hyn. Bydd y Cynghorydd Bainbridge a'r Cynghorydd M Griffiths yn trafod y mater hwn ymhellach â Ray Quant.

(Cofnod 108) Gofynnodd y Cynghorydd Bainbridge a oedd arian yn ddyledus i'r cyn-Glerc.

Dywedodd Cynghorydd H Hughes fod y mater hwn yn cael sylw a'i fod wedi cysylltu ag Un Llais Cymru i gael arweiniad.

Gofynnodd y Clerc a fyddai'n fwy defnyddiol petai'r cofnodion yn cael eu dosbarthu'n gynharach fel y gellir gwneud **mân welliannau** os oedd eu hangen yn ôl disgrisiwn y Clerc ymlaen llaw, cyn eu hanfon at y cyfieithydd. Byddai hyn hefyd yn helpu'r rhai nad oeddent yn bresennol yn y cyfarfod diwethaf i wybod beth drafodwyd ynghynt.

Cytunwyd i wneud hyn a dywedodd Clerc y byddai'n anfon y cofnodion at y Cynghorwyr gan ganiatáu wythnos i'w hadolygu cyn eu hanfon at y cyfieithydd. Bydd unrhyw faterion y mae angen eu trafod yn parhau i gael eu trafod yng nghyfarfodydd y Cyngor.

Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion y cyfarfod misol (a'r gwelliannau) a gynhaliwyd ar y 5ed o Fedi. Y cynigydd oedd y Cynghorydd Jones a'r eilydd oedd y Cynghorydd Morris. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig.

MATERION YN CODI

116. Yn dilyn trafodaeth flaenorol ar Bolisi Amgylcheddol y Cyngor, gofynnodd y Clerc a oedd angen cynifer o gopiau papur o'r cofnodion a'r agendâu blaenorol. Dywedodd y Cynghorwyr eu bod yn fodlon dod â gliniaduron a thabledi i leihau gwastraff papur. Bydd y Clerc yn argraffu llai o bapurau y mis nesaf ac amser a ddengys a fydd hyn yn benderfyniad doeth. Bydd pethau'n cael eu hargraffu ar y ddwy ochr o'r dudalen.

117. Cymeradwyo'r penderfyniad i ysgrifennu llythyron oddi wrth y Cyngor at Ieuan Ellis, Ronnie Davies a Ray Quant i'w llongyfarch. Cynhigiodd y Cynghorydd Morris y dylid ysgrifennu llythyron fel hyn yn brydlon ac yn ôl disgrisiwn y Clerc a'r Cadeirydd, yn hytrach nag aros i'r Cyngor gwrdd eto. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Jones. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig

118. Adar meirw ar draethau. Bydd y Cyngor yn parhau i godi ymwybyddiaeth drwy'r cyfryngau cymdeithasol a bydd yn parhau i gadw golwg ar sefyllfa. Hysbyswyd DEFRA ynglŷn â'r canfyddiadau diweddar.

GOHEBIAETH

119. Anfonwyd pob darn o ohebiaeth oddi wrth Un Llais Cymru, Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ceredigion at bob Aelod cyn y cyfarfod. Ni chododd yr Aelodau ddim materion ynglŷn â'r ohebiaeth. Daeth gohebiaeth arall i law nad oedd angen gweithredu arni oddi wrth Hwb Cymunedol y Borth.

120. Cais am Fin Baw Cŵn Newydd Mae aelod o'r cyhoedd wedi gofyn am fin baw cŵn y tu allan i Ddolau Bach y Borth/ardal cerdded cŵn. Gofynnwyd i'r Clerc gofnodi'r mater drwy system CLIC gan fod bin baw cŵn sy'n eiddo i Gyngor Sir Ceredigion eisoes i'w gael ar yr un darn o'r llwybr cerdded. I gefnogi hyn, cynhigiodd y Cynghorydd Williams y dylid cofnodi'r mater drwy system CLIC, ac eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Dalton. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig

121. Daeth llythyr i law i atgoffa'r Cyngor bod y polisi yswiriant ar fin dod i ben. Cafwyd dyfynbris o £1334.15 oddi wrth y broceriaid. Premiwm y llynedd oedd £1223.01 a oedd yn ddyledus ar yr 8fed o Hydref 2022.

Mae'r Cyngor wedi cytuno i dalu premiwm eleni. Y cynigydd oedd y Cynghorydd Dalton a'r eilydd oedd y Cynghorydd Williams. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig Cynhigiodd y Cynghorydd H Hughes y dylid cynnal gweithgor y tu allan i gyfarfod y Cyngor i ddeall yn well ba asedau sydd gan y Borth. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Bainbridge. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig.

Bydd y Clerc yn trefnu hyn. Bydd croeso i bawb, gan gynnwys aelodau'r cyhoedd a allai fod o gymorth.

Ymholiad a anfonwyd at y cwmni yswiriant ynghylch y diffibrilwyr, manau gwefru ceir trydan ac, yn fwy diweddar, y parc cychod. Darllenwyd y cyfan i aelodau'r Cyngor er mwyn ymateb i bryderon ynglŷn â chynnwys y polisi yswiriant. Holodd y Cynghorydd Bainbridge ynglŷn â'r Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus a chadarnhaodd y Clerc mai'r swm ar ddogfennau polisi blaenorol oedd £10,000,000.00.

Cynhigiodd y Cynghorydd Jones y dylid cofnodi'n rheolaidd bod y parc cychod wedi'i wirio a bod unrhyw bryderon wedi'u nodi. Fe allai hyn ddigwydd bob chwarter.

Mae'r Cynghorydd A Hughes yn poeni am gwch sy'n rhwystro'r grisiau, a bydd arwydd yn cael ei gosod a fydd yn dweud 'keep clear/cadwch yn glir' yn y ddwy iaith. Cytunodd y Cyngor na ddylai hyn gostio mwy na £30.

Y cynigydd oedd y Cynghorydd Williams a'r eilydd oedd y Cynghorydd Jones. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig

Bydd y Cynghorydd A Hughes yn anfon llun at y Clerc sy'n dangos y cwch dan sylw fel y gellir holi drwy'r cyfryngau cymdeithasol pwy sy'n berchen arno.

Cytunodd y Cyngor bod angen gwirio pwy sy'n berchen ar ba gychod. Serch hynny, hwyrach nad nawr yw'r amser cywir i gael y wybodaeth hon, felly mae'n bosib y bydd hyn yn digwydd yn y dyfodol.

122. Neges oddi wrth Ray Quant ynglŷn â chynnal prawf mellt ar y Gofeb Ryfel Daeth e-bost i law a oedd yn cadarnhau'r swm yr oedd ei angen i gynnal prawf ar Gofeb y Borth. Y gost oedd £250. Daeth negeseuon e-bost i law oddi wrth y Cynghorydd Williams, y Cynghorydd Jones, y Cynghorydd Bainbridge, y Cynghorydd Morris, y Cynghorydd H Hughes a'r Cynghorydd Pryce Jones i ddweud eu bod i gyd o blaid hyn.

Cynhigiodd y Cynghorydd Morris bod y Cyngor yn cymeradwyo'r taliad, ac fe eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Griffiths. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig. Bydd y Clerc yn hysbysu Ray Quant i fwrw ymlaen â'r gwaith.

123. Ardrethi draenio - Nodyn atgoffa oddi wrth Gyfoeth Naturiol Cymru Dywedodd M Walker nad oedd yr anfoneb wreiddiol wedi dod i law ac i'r un peth ddigwydd o'r blaen. Derbyniodd anfoneb am £280.94. Holodd y Cynghorydd Morris ynglŷn â'r dyddiadau yr oedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn anfonebu amdanynt. Cadarnhaodd y Clerc fod yr anfoneb yn rychwantu'r cyfnod rhwng y 1af o Ebrill 2022 a'r 31ain o Fawrth 2023.

Mynegodd Cynghorydd Griffiths bryder ynglŷn â'r bibell sy'n rhedeg tua'r môr. Esboniodd y Cynghorydd Morris wrth y Cyngor fod y bibell wedi'i hymestyn yn rhan o Gam 1af yr Amddiffynfa Fôr, ond ei bod bellach wedi troi'n grwyn bychan. Mae'r Cynghorydd Morris yn bwrw golwg dros faterion parhaus sy'n ymwneud â Chyfoeth Naturiol Cymru. Atgoffwyd y Cyngor i ddweud os bydd yn gweld gwaith yn cael ei wneud, ac awgrymwyd y gellid nodi hyn ar fap y dangosodd Cyfoeth Naturiol Cymru i'r Cyngor o'r blaen sy'n dangos pa ardaloedd sydd wedi'u clirio. Bydd y Clerc yn chwilio am hyn.

124. Cais at y cyfieithydd Gofynnodd ymwelydd â'r Borth am wybodaeth ynglŷn â sut i gyfieithu araith ar gyfer ei briodas. Cyfeiriwyd yr e-bost at Heledd Davies, gyda'i chaniatâd. Mae'r Mater wedi'i ddatrys.

125. Meinciau Coffa Daeth cais i law am fainc goffa neu rywbeth tebyg. Maent yn fodlon i'r Cyngor gynnig awgrymiadau ynglŷn â beth sydd ar gael a sut i fwrw ymlaen â hyn.

Awgrymodd y Cyngor y gellid cael tarian yn enw eu rhieni i'w chyflwyno yn y Carnifal. Bydd y Clerc yn cysylltu â'r preswlydd i holi a yw'n hoff o'r awgrym.

126. Neges Facebook (1) Safle'r Hen Neuadd Gymunedol Ysgrifennodd preswlydd at y Cyngor i holi pwy oedd yn berchen ar safle'r Hen Neuadd Gymunedol ac a ellid ei glirio er mwyn creu rhagor o lefydd parcio oddi ar y ffordd. Cadarnhaodd y Cyngor fod y tir yn eiddo i grŵp preifat ac felly ni allai gynorthwyo. Mae'r Mater wedi'i ddatrys.

CYFRIFON

127. BALANS Y CYFRIFON AR 27 MEDI 2022	
Nationwide	£25312.45
Cyfrif Banc Elusennol	£14,095.44
Cyfrif Busnes Dim Rhybudd	£7,451.30
Cyfrif Adnau	£3,830.90

128. INCWM

NID OEDD MODD CADARNHAU'R INCWM GAN NA CHAFWYD DATGANIAD

129. Gwariant - Penderfynodd yr Aelodau dalu'r canlynol. Y cynigydd oedd y Cynghorydd Bainbridge a'r eilydd oedd y Cynghorydd Jones. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig.

Ffioedd y Cyfrif Banc Elusennol	I'w cadarnhau
I Railton – Cyflog mis Medi	£663.65
I Railton - Inc yr Argraffwr	£36.99
Heledd Davies – cyfieithu cofnodion mis Medi	£113.40
George Romary – Gwelyau blodau	£100.00
M Walker - o Gronfa'r Cadeirydd	£100.00
Cyfoeth Naturiol Cymru – Clirio'r Gors	£280.94
I Railton- Aelodaeth o Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol a'r ffi ymuno	£144.00
I Railton – Cwrs ILCA a Ffi Arholiadau	£72.00

130. Mae'r Clerc wedi cysylltu â HSBC sydd wedi gofyn am gofnodion a ffurflenni er mwyn gallu cychwyn y cyfrif banc ar-lein. Cafwyd cadarnhad mai'r Nationwide y bydd y Cyngor yn ei ddewis.

CYNLLUNIO

131. Cais am Ganiatâd Cynllunio Llawn

A220597 Lleoli carafán statig dros dro, er mwyn caniatáu i'r ymgeiswyr fyw ar y safle wrth i'r gwaith o dynnu strwythur y Weinyddiaeth Amddiffyn i lawr gychwyn ac wrth i'r annedd newydd gael ei chodi. Tir i'r dwyrain o Renfrew Drive, Ynyslas, y Borth

Daeth pryderon i law'r Cyngor ynglŷn â chaniatâd cynllunio ôl-weithredol, a bod rhywfaint o densiwn yn y gymuned leol. Bydd y Clerc yn rhannu'r pryderon hyn â'r swyddfa gynllunio.

A220630 Heb ei gynnwys gan iddi ddod i'r amlwg nad oedd y cais yn syrthio o fewn ardal y Cyngor.

A220641 Tynnu hen estyniad cefn i law. Glasfryn, Glanwern, y Borth, SY24 5LT

Daeth sylwadau i law dros e-bost oddi wrth y Cynghorydd Morris. Dywedodd y Cynghorydd Dalton fod angen i'r adran gynllunio yn awr dynnu ac ychwanegu estyniad.

NI CHAFWYD DIM GWRTHWYNEBIADAU I'R UCHOD

AMDDIFFYN YR ARFORDIR A LLIFOGYDD

132. Cafwyd diweddariad gan y Cynghorydd Hughes gan y bu'n holi ynglŷn â'r sefyllfa. Nid yw'n fodlon a bydd yn holi unwaith eto. Crybwyllodd y Cynghorydd Dalton fod yr hen grwynau bellach i'w gweld yn amlwg iawn. Os oedd archwiliad wedi'i gynnal, dywedodd y Cynghorydd Morris nad oedd yn ddigonol. Nid yw'n fodlon ac mae'n ategu pryderon y Cynghorydd H Hughes na chafwyd ateb gonest. Dywedodd y Cynghorydd Griffiths iddi weld rhywun o Gyngor Sir Ceredigion â thâp

mesur ddydd Mercher. Gofynnodd y Cynghorydd Jones ac eraill i'r Cynghorydd H Hughes godi'r mater â'r Prif Weithredwr.

Y WAL GYFERBYN Â SIOP PREMIER

133. Darllenodd y Clerc e-bost oddi wrth Huw Bates a oedd yn dweud y byddai David o'r cwmni yn cysylltu â ni i drefnu cyfarfod i drafod y mater hwn sy'n parhau. Trafododd y Cynghorwyr sut yr oedd un ddogfen yn dangos ffurflen a oedd wedi'i llofnodi ac a oedd yn dweud mai Cyngor Tref y Borth, fel yr oedd bryd hynny, oedd yn berchen ar yr ardal hon.

Gofynnodd y Cynghorydd Bainbridge a'r Cynghorydd Williams a oedd unrhyw reolau a oedd yn dweud bod y tir, yn ôl pob tyb, dan berchnogaeth rhywun penodol. Dywedwyd y byddai'n cael ei ystyried yn dir cyfraith gyffredin dros gyfnod hir. Dywedodd y Cynghorydd Griffiths, pan oedd yn berchen ar eiddo ger y tir dan sylw, ei bod wedi cael darn o'r tir ond iddi ei ddychwelyd mewn dogfen ysgrifenedig.

Cynhigiodd y Cynghorydd Jones roi nodiadau drwy ddrysau trigolion i weld a oedd unrhyw ddarn o'r tir dan sylw wedi'i gynnwyd yn eu gweithredoedd.

Gofynnodd y Cynghorydd A Hughes i'r Cyngor ddeall pwrpas trafod y mater hwn ac a oedd y Cyngor mewn gwirionedd eisiau holi ynghylch perchnogaeth ai peidio. Ymateb cymysg a gafwyd i hyn. Awgrymodd y Cynghorydd Williams y dylid cael cyngor cyfreithiol gan rywun sy'n arbenigo ym maes trosoglwyddo.

Penderfynwyd holi David yng Nghwmni Cyfreithwyr Huw Bates unwaith eto am gyfarfod i barhau i geisio datrys y mater. Ychwanegwyd y mater hwn at agenda'r cyfarfod nesaf.

CYDNABYDDIAETH I RAY QUANT MBE

134. Bydd y Cynghorwyr Griffiths a Bainbridge yn cysylltu â Ray Quant eto i drafod y mater hwn.

MYNEDIAD I BOBL ANABL A PHARCIO YN Y BORTH

135. Cyflwynodd y Clerc ganlyniadau arolwg a gynhaliwyd ar y cyfryngau cymdeithasol (Facebook a Twitter) sydd wedi cymell llawer o breswylwyr i e-bostio'r Cyngor â'u pryderon. Mae'r ymatebion wedi'i rhannu'n ddau, gyda hanner y preswylwyr yn awyddus i gael rhagor o lefydd parcio ar y ffordd (e.e. mwy o lefydd i gerbydau bathodyn glas, parcio i breswylwyr ac ati) a'r ail hanner yn mynegi pryderon ynghylch y manau cul ar y palmentydd.

Roedd y Cynghorydd Morris yn cydymdeimlo â'r ddwy ochr. Gofynnwyd a oedd Grŵp Borth 2030 wedi codi'r mater hwn a dywedodd y Cynghorydd A Hughes ei fod yn rhan o'u trafodaethau am les. Awgrymodd y Cynghorydd Williams y gellid codi'r mater â'r Adran Gydraddoldeb yn y Cyngor Sir gan ei fod yn mynd yn groes i Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabled. Bydd y Clerc yn bwrw ymlaen â hyn.

Cododd y Cynghorydd Bainbridge bryderon hefyd am gyflymder y traffig ar y ffordd. Dywedodd y Cynghorydd H Hughes na fydd yr Adran Briffyrdd yn gallu newid pethau ar hyn o bryd nes bod y cyfyngiadau cyflymder is newydd yn dod i rym.

Ychwanegwyd y mater at agenda mis Tachwedd er mwyn trafod rhagor arno.

GWEFAN Y CYNGOR A'R CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

136. Bydd y Cyngor yn dechrau ymchwilio i gael gwefan newydd. Cynhigiwyd bod swm o £150 yn cael ei awdurdodi os oedd ei angen cyn y cyfarfod nesaf i brynu enw parth ac i gychwyn ar y broses. Y cynigydd oedd y Cynghorydd Bainbridge a'r eilydd oedd y Cynghorydd Jones. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig.

Yn rhan o hyn, awgrymodd y Clerc y gellid cael cystadleuaeth 'logo' er mwyn dylunio rhywbeth y gallai'r Cyngor ei ddefnyddio.

Bydd y Cynghorydd Bainbridge yn dod o hyd i ddogfen a ddefnyddiwyd mewn cystadleuaeth leol arall sy'n amlinellu rheolau a'r hawliau perchnogaeth ac ati. Cytunwyd i ail-ystyried y mater ym mis Tachwedd.

Y DIWEDDARAF AR SYSTEM CLIC

137. Dywedodd y Cynghorodd Cynghorydd Hughes fod system CLIC yn gwella. Dylai Cynghorwyr Sir bellach fod yn gallu gweld materion sydd wedi'u cofnodi gan Glercod drwy system CLIC, ond nid yw hyn wedi digwydd eto. Mae gweithio hybrid yng Ngheredigion wedi arwain at rai problemau. Dyw popeth ddim yn gweithio'n gywir ond y bwriad yw cynnal cyfarfod arall ym mis Rhagfyr i geisio datrys y problemau hyn. Bydd hyn yn cael sylw yng nghyfarfod mis Ionawr.

Y PARC CYCHOD A'R TAP ALLANOL

138. Trafodwyd y Parc Cychod ac adnewyddu'r yswiriant yn flaenorol (Cofnod 121).

Roedd y tap allanol wedi'i drafod o'r blaen, ond ymddengys y byddai casgen ddŵr yn fwy cyfeillgar i'r amgylchedd.

Dywedodd y Cynghorydd Williams y byddai angen i'r gasgen fod â chaead arni er mwyn atal unrhyw un neu unrhyw beth rhag syrthio i mewn iddi. Tynnodd y Cynghorydd Jones lun a oedd yn dangos sut y gellid dargyfeirio dŵr o'r beipen ddŵr o'r cafnau. Byddai angen crybwyll hyn wrth Gyngor Sir Ceredigion gan mai eu cafnau nhw oedd y rhain. Bydd y Clerc yn cofnodi'r mater drwy system CLIC a bydd yn gofyn i Gyngor Sir Ceredigion am ymateb. Nodwyd y byddai angen i'r gasgen fod yn ddigon uchel i allu gosod can dyfrio oddi tani gan y byddai'r can yn cael ei ddefnyddio i ddyfrhau'r gwelyau blodau cyfagos. I'w drafod ymhellach ym mis Tachwedd.

MATERION Y CADEIRYDD

139. Dywedodd y Cynghorydd H Hughes fod y rhan fwyaf o'r materion wedi cael sylw yn y cyfarfod. Mae wedi rhoi sic ac arian parod i'r cyn-Clerc, a gofynnodd a fyddai modd rhoi rhywbeth iddi yn atgof amdanom ni gyd.

CYFRIFOLDEBAU'R CYNGHORWYR

140.

Holodd y Cynghorydd Jones ynglŷn â'r llinell ffôn ar y ffordd tuag at yr Animalarium. Ymddengys ei bod yn cwmpo i mewn i'r cyrs. Dywedodd y Cynghorydd Morris fod y llinell yn isel ers blynnydoedd. Dywedodd y Cynghorydd Jones hefyd fod Grŵp Iechyd y Borth yn cwrdd nesaf ar y 10fed o Hydref.

Dywedodd y Cynghorydd Morris fod y cyrs ar ymylon y ffordd ym mhen deheuol y pentref wedi'u tocio. Cyfarfu ag Owen Jenkins ddoe a ddywedodd nad ef oedd yn gyfrifol am hyn. Tybiodd mai Cyfoeth Naturiol Cymru neu Network Rail oedd yn gyfrifol. Serch hynny, pwy bynnag a wnaeth y gwaith, ymddengys nad oedd ganddynt lawer o brofiad o dorri cyrs am fod y gwaith yn eithaf blêr. Bydd y dyfrffosydd yn cael eu hychwanegu unwaith eto at yr agenda er mwyn trafod y mater ymhellach yng nghyfarfod mis Tachwedd.

Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Williams am yr 'Haf o Hwyl'. Bu 83 o deuluoedd yn rhan o'r digwyddiad a bu'n llwyddiant mawr. Cafwyd llawer o sylwadau gan bobl. Ategodd y Cynghorydd Bainbridge fod corff llywodraethol yr ysgol yn cwrdd nesaf ar y 18fed o Hydref.

Dywedodd y Cynghorydd Bainbridge y dylid caniatáu i Borth 2030 fwrw ymlaen â'r 'llwybr gweithgaredd' am nad oedd llawer o bwynt dyblygu gwaith. Hefyd, mae'r Cyngor Iechyd Cymuned wedi anfon arolwg at gynghorwyr a chlercod. Dywedwyd bod yr ysgol yn fodlon iawn â'r gweithgareddau a gynhaliwyd dros yr haf.

Fe gododd y Cynghorydd Griffiths bryderon am y traeth a dywedodd drachefn fod angen mynd i'r afael â'r problemau ar frys. Soniwyd hefyd bod tafarndai wedi crybwyll bod Cynghorwyr yn dweud pethau am eraill y tu ôl i'w cefnau. Mynegodd Cynghorydd Griffiths bryder ynghylch y mater hwn, ac ategodd y dylem ni gyd fod yn cydweithio. Dywedodd y Cynghorydd H Hughes fod hyn yn mynd yn groes i'r cod ac y dylai'r Cynghorydd Griffiths godi hyn â'r Clerc.

Adroddodd y Cynghorydd A Hughes yn ôl ynglŷn â'r hyfforddiant diffibrilwyr. Dywedodd fod hon yn sesiwn dda ac i 12-14 o bobl ddod at ei gilydd ac i ragor o bobl fynegi diddordeb yn sesiynau'r dyfodol. Bydd arweinydd y grŵp yn cysylltu â'r Clerc i drafod y treuliau a gymeradwywyd ymlaen llaw yng nghyfarfod mis Gorffennaf (Cofnod 73), sef £30.

Bydd y Cynghorydd A Hughes yn edrych i weld a oes modd hyfforddi ymatebwyr cyntaf. Gofynnodd y Cynghorydd Williams a fyddai hyfforddiant cymorth cyntaf iechyd meddwl yn fuddiol.

Dywedodd y Cynghorydd Dalton fod y baneri cerdded cŵn bellach wedi'u codi o'r traeth ac ategodd fod y cwtiad torchog (ringed plover) wedi'i weld yn Iwerddon.

ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

141. Dywedodd y Cyngorydd H Hughes fod y rhan fwyaf o'r materion wedi cael sylw yn ystod y cyfarfod. Mae'r Cyngorydd H Hughes wedi ymweld â safle y tu allan i'r Borth i drafod clirio'r ddyfrffos. Mae'r materion hyn yn parhau.

Y CYFARFOD NESAF A'R MATERION I'W CYNWYS AR YR AGENDA

142. Gan nad oedd rhagor o faterion i'w trafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 21.55pm. Ymhlith yr eitemau ar agenda'r cyfarfod nesaf ar Dachwedd y 7fed 2022 fydd yr Amddiffynfa Fôr a Llifogydd, y wal gyferbyn â Siop Premier, Gwefan y Cyngor, Newid Hinsawdd, Clirio Dyfrffos a Pharcio Beiciau. Cysylltwch â'r Clerc os ydych am ychwanegu unrhyw eitemau eraill at yr agenda. Bydd y Clerc yn anfon dolen at bawb cyn y cyfarfod.